www.xtrapapers.com

OCR
Oxford Cambridge and RSA

# Dydd Llun 14 Mai 2018 – Bore

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

**ATODIAD ASTUDIAETH ACHOS**

**Amser:** 1 awr

*7052254315*

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

- Mae hwn yn gopi glân o'r Astudiaeth Achos y dylech fod wedi ei gweld eisoes.
- Dylech gyfeirio ati wrth ateb cwestiynau'r arholiad sydd wedi eu hargraffu mewn llyfryn ar wahân.
- **Ni** chewch fynd â'ch copi blaenorol o'r Astudiaeth Achos i'r arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

### CYFARWYDDYD I'R SWYDDOG ARHOLIADAU/GORUCHWYLIWR

- Peidiwch ag anfon yr Astudiaeth Achos hon i'w marcio; dylid ei chadw yn y ganolfan neu'i hailgylchu. Cysylltwch â Hawlfraint OCR os byddwch yn dymuno ailddefnyddio'r ddogfen hon.

© OCR 2018 [K/503/6025]
DC (LK) 167198/1
Mae OCR yn Elusen eithriedig

**Trowch y dudalen**

www.xtrapapers.com



## Gwybodaeth i Ddysgwyr

Mae cystadleuaeth rhwng campfeydd yn ddwys, ac felly mae campfeydd unigol bob amser yn chwilio am ffyrdd y gallant gynnig hyfforddiant o ansawdd gwell. Un ffordd yw cyflogi hyfforddwyr personol sy'n gweithio gydag aelodau unigol i gyflawni nodau ffitrwydd allweddol, fel colli pwysau neu hyfforddi ar gyfer digwyddiad penodol (Senario 1).

Gall Cynorthwywyr Gweinyddu gael eu cyflogi i wneud llawer o dasgau, ac maen nhw fel arfer yn cynorthwyo mewn llawer o feysydd mewn sefydliad. Maen nhw'n aml mor ganolog i waith pob dydd sefydliad fel y gallai fod yn bosibl eu camgymryd weithiau fel pobl sy'n rhedeg y sefydliad ar eu pennau eu hunain (Senario 2).

## Senario 1

Mae Campfa Maes Knoll yn gampfa a gafodd ei sefydlu yn ddiweddar ar gyrion tref fawr. Mae tair campfa arall eisoes o fewn radiws pum milltir. Mae perchennog y Gampfa yn arbrofi â ffyrdd mae hi'n gallu gwneud ei champfa yn fwy apelgar i ddarpar aelodau.

Mae'r Gampfa yn cyflogi pedwar hyfforddwr personol ac mae pob un ohonyn nhw'n gweithio gydag aelodau unigol o'r gampfa i ddatblygu rhaglenni hyfforddi personol i gyflawni nodau hyfforddi penodol. Mae gliniadur yn cael ei roi i bob hyfforddwr personol, a gallan nhw ddefnyddio hwn tra byddan nhw yn y Gampfa. Fel arfer, mae'r hyfforddwyr personol yn defnyddio'r rhain i greu rhaglenni hyfforddi, ac mae pob hyfforddwr yn cael microffon unigol sydd wedi'i gysylltu â'u gliniadur. Gallan nhw ddefnyddio'r microffon i recordio nodiadau sain am yr ymarferion sy'n cael eu cwblhau gan aelodau o'r gampfa yn ystod sesiynau hyfforddi.

Ar hyn o bryd, mae pob gliniadur yn ddyfais arunig (*stand-alone*) ac felly nid oes man storio canolog ar gyfer y nodiadau a'r deunyddiau eraill sy'n cael eu creu gan yr hyfforddwyr personol. Mae pob hyfforddwr personol yn storio'r nodiadau a'r deunyddiau eraill ar ei liniadur ei hun. Mae perchennog y Gampfa yn pryderu bod y data hyn mewn perygl ac mae'n ystyried dulliau gwahanol a allai gael eu cyflwyno i ddiogelu'r data hyn.

Mae'r hyfforddwyr personol yn trefnu teithiau beicio grŵp o gwmpas yr ardal leol ar gyfer eu cleientiaid. Mae pob beiciwr yn cael dyfais sy'n gallu darparu System Leoli Fyd-eang (GPS) i gofnodi ei gyflymder a'r pellter a deithiwyd yn ystod taith feicio. Mae'r ddyfais hon yn cael ei chysylltu wrth fownt (*mount*) ar flaen beic pob beiciwr. Mae'r data o bob dyfais yn cael eu lawrlwytho gan yr hyfforddwyr personol pan fydd taith wedi'i chwblhau, a bydd y data yn cael eu postio ar ardal ddiogel ar wefan y Gampfa. Gall beicwyr unigol ddefnyddio mewngofnod (*login*) personol i fynd at eu data o'r daith.

Mae tasg wedi cael ei rhoi i un o'r hyfforddwyr personol i greu fideos cymhelliant (*motivational videos*). Bob wythnos, mae fideo newydd yn cael ei recordio a'i bostio ar wefan y Gampfa.

## Senario 2

Mae Mandy newydd gael ei chyflogi fel Cynorthwyydd Gweinyddu yn y Gampfa. Gan mai swydd newydd yw hon, mae hi wedi cael cyllideb i brynu a gosod system gyfrifiadurol sy'n bodloni anghenion ei swydd. Bydd Mandy yn gyfrifol am ddelio â nifer o brojectau gwahanol ac felly bydd hi'n trefnu ei strwythur ffolderi ar y system gyfrifiadurol newydd hon yn unol â hynny.

Un o'r tasgau cyntaf sydd wedi cael ei rhoi iddi yw creu system i storio cofnodion am aelodau o'r Gampfa. Rhaid ei bod yn hawdd golygu'r cofnodion hyn a chwilio trwyddyn nhw.

Mae'r Gampfa newydd gyflogi hyfforddwr ioga newydd ac mae wedi gofyn i Mandy ddrafftio datganiad brys i'r wasg am yr aelod newydd o staff. Rhaid i hwn gael ei wirio gan berchennog y Gampfa, sydd ar wyliau yn Awstralia ar hyn o bryd. Wedi i'r perchennog wirio'r datganiad i'r wasg a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol, bydd rhaid i Mandy ei anfon i'r papur newydd lleol i'w gyhoeddi.

www.xtrapapers.com



Mae perchennog y Gampfa eisiau trefnu cyfarfod rhyngddi hi a'r hyfforddwr ioga newydd. Mae'r Gampfa wedi gofyn i Mandy drefnu amser addas ar gyfer y cyfarfod hwn a rhoi gwybod i'r hyfforddwr ioga a pherchennog y Gampfa pryd a ble bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal. Mae gan berchennog y Gampfa hanes o anghofio am gyfarfodydd, felly mae wedi cael ei awgrymu i Mandy y dylai hi wneud cymaint â phosibl i sicrhau bod y perchennog yn dod i'r cyfarfod.

**Paratoi**

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg i gynorthwyo yng ngwaith pob dydd hyfforddwr personol sy'n gweithio mewn campfa.

Dylai hyn gynnwys:

- manteision ac anfanteision caniatáu i hyfforddwyr personol ddefnyddio dyfeisiau symudol mewn campfa;
- dealltwriaeth dechnegol o sut mae dyfeisiau sy'n gallu darparu GPS yn defnyddio signalau lloeren i adnabod lleoliad;
- risgiau sy'n cael eu hachosi gan ddefnyddio'r dyfeisiau hyn;
- y caledwedd a'r feddalwedd sydd eu hangen i gynnal system olrhain GPS;
- y defnydd o feddalwedd i gadw cofnodion am aelodau o gampfa.

Dylech chi hefyd ymchwilio i'r canlynol:

- yr effeithiau posibl pe bai data personol aelodau yn cael eu colli;
- sut gallai data a dyfeisiau gael eu diogelu;
- dulliau posibl i greu rhwydweithiau;
- sut mae ffactorau gwahanol yn dylanwadu ar y dewis o systemau cyfrifiadurol a'r eitemau caledwedd perifferol sy'n gallu cael eu hychwanegu at system gyfrifiadurol.

© OCR 2018

www.xtrapapers.com



OCR
Oxford Cambridge and RSA

**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2018